

North Pole

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 5.0 milltir (8.0 km) 2 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Graddfa gymedrol, gall fod yn wlyb ac yn fwdlyd, caeau a da byw, 3.5 milltir (5.75 km) o gerdded ar isffyrdd


CHWILIWCH AM: Golygfeydd gwyh tua'r tir • hen bentrefannau Pontiago a Llanwnda
• tŵr awyrennau sifil • carreg sefyll o'r Oes Efydd • Siambr gladdu Neolithig

ALLWEDD

- Llwyr Cylch
- Llwyr Arfordir Sir Benfro
Llwyr Cenedlaethol
- - - Llwbrau Cyhoeddus
- P** Parcio
- Safle Bws

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glywidi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi



North Pole

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr 30 munud

Pellter: 5.0 milltir (8.0 km)

Cludiant cyhoeddus: *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM922389

Mae'r golygfeydd gwych o Ben Caer tua'r tir yn sicr yn werth eu harchwilio ac mae yna olygfeydd godidog hefyd o'r môr. Dyma dirwedd a grëwyd gan ddigwyddiadau daearegol drammatig iawn rhwng 500 a 440 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Bryd hynny, roedd llosgfynyddoedd yn weithgar yn llawer o'r hyn sydd bellach yn Sir Benfro, ac yn poeri llifoedd lafa a oerodd i ffurfio creigiau igneaidd caled iawn. Mewn rhai manau ni chyrrhaeddodd ymchwydd folcanig y graig dawdd yr arwyneb, gan oeri'n araf o dan y tir yn lle.

Dros miliynau o flynyddoedd mae'r mewnwthiadau igneaidd hyn wedi gwrthsefyll erydiad lawer yn well na haenau cyfagos i ddod yn garneddau caregog fel Garn Fawr, Y Garn a Garnwnda.

Daw enw'r daith o eiddo o'r enw North Pole, y mae'r path yn ei basio. Yn ôl traddodiad lleol, fe gafodd y pren a ddefnyddiwyd i adeiladu'r tŷ ei achub o gwch o'r un enw a ddaeth i'w derfyn ar Ben-caer.

Chwiliwch am fythynnod traddodiadol Sir Benfro gyda waliau wedi eu distempro â lliw ac weithiau to llyfn wedi'i orchuddio gyda sment. Defnyddiwyd gwellt ar gyfer y to am ganrifoedd yng nghefn gwlad Cymru ond rhoddwyd to newydd o lechi ar y rhan fwyaf o fythynnod yn y 19eg ganrif.

Mae'r eglwys fechan sydd wedi'i chysegru i Sant Gwyndaf yn Llanwnda yn enghraifft berffaith o'r cynllun Celtaidd sy'n nodweddiadol o ogledd y sir. Mae'n adeilad diymhongar, sy'n eithaf gwahanol i eglwysi tŵr pwerus pentrefi yn ne Normanaidd y sir.

Pen Caer ddioddef waethaf yn nwylo ysbeilgar byddinoedd Ffrengig a ymosododd ar Sir Benfro yn 1797. Glaniodd y grym anffortunos ym Mhwynt Carreg Wastad, ychydig i'r gogledd o Lanwnda.

Unwaith y cyrrhaeddod nhw'r lan, mae'n debyg fod y grym o 1,500 o ddynion wedi canolbwyntio ar feddwi yn bennaf. Roedden nhw'n ddigon ffodus i ddod ar draws stoc o ddiod feddwol yn barod ar gyfer priodas yn Fferm Trehowel.

Mae'n debyg mae eu hymdrech filwrol fwyaf oedd ymosod ar eglwys Llanwnda a dwyn plât arian. Yn fuan wedi hyn, ildiodd y grym yng Ngwdig.